



Fe geisiodd rhyw ffermwr clyfar ei farchnata fel 'aur yr haf'; a bod yn deg, mae'n flodyn trawiadol, eithaf amlwg a disglair yng ngolau'r haul, gan addurno'r ddôl ag ychydig o liw. Fodd bynnag, dyma fi'n tynnu llond côl ar y tro, a'i daflu oddi ar y cae. Dyma lysiau'r gingroen neu'r benfelen (ragwort), sef archelyn pob perchennog ceffylau a fyddai eisiau difa'r planhigyn hwn wrth ei weld. Ac eto, mae'n blanhigyn gwerthfawr iawn i fywyd gwyllt. Un o'r creaduriaid amlwg sy'n cael budd ohono yw'r lindysyn teigr y benfelen (cinnabar moth), yn ei 'siwmpwr wlanog' ddu ac oren, sy'n dibynnu arno fel y planhigyn y mae'n ei fwyta.



Lindysyn teigr y benfelen
© NevDavies@ecology-cymru

Mae dail llysiau'r gingroen yn cynnwys gwenwyn alcaloid, sy'n gallu aros mewn planhigion sydd wedi'u sychu gyda gwair. Nid yw'r cae yn fygythiad i geffylau gan nad ydyn nhw'n pori yn y ddôl, ond, wrth gwrs, bydd gwair y ddôl yn cael ei dorri a'i droi'n beliau gwair i'w bwydo i anifeiliaid dros y gaeaf. Yn y cyflwr hwn, mae'n osgoi sylw wrth i'r ceffylau a'r da byw ei fwyta; mae'r gwenwyn yn dinistrio'r afu dros amser.

Y rhyfeddod yw bod y lindysyn teigr y benfelen yn gallu bwyta dim ond llysiau'r gingroen, a storio'r gwenwynau yn ei groen; mae hyn yn ei wneud yn annymunol i'w ysglyfaethwyr. Mae'n hysbysebu'r ffaith drwy'r lliwiau rhybuddio du ac oren llachar.

Felly, mae angen sicrhau nad yw'r gwair yn cynnwys llysiau'r gingroen. Yn ffodus, mae digon o lindys teigr y benfelen wedi gallu cyrraedd eu llawn dwf i allu diogelu'r genhedlaeth nesaf.

Wrth i mi weld y clwstwr olaf o aur, fe glywais i ddwy fenyw yn gwneud sylwadau edmygol ar glwstwr prydfarth arall o flodau. Roedd eu camerâu'n



anelu at sblass hyfryd o las ar balet o liw na all dim ond dôt ddiwedd yr haf ei ddarparu. Clychau'r eos (harebell) yw un o'r blodau gwyllt mwyaf prydfarth.

Roedd cant neu ragor o 'glychau' yn dawnsio o'n blaenau, gan hongian ar goesynnau cain; am eiliad hudol hafaidd i'w mwynhau cyn i'r peiriant ffustio gyrraedd i roi terfyn ar y sioe flodau.



Clychau'r eos

Mae sioe'r tymor hwn, o fis Mai i fis Awst, wedi bod yn gysur rhyfeddol yn ystod trallodion parhaus y cyfyngiadau oherwydd coronafeirws. Fodd bynnag, cadwch lygad am y ffermwr lleol pan fydd yn mynd ati i fynio – os bydd y tywydd yn caniatáu, wrth gwrs – a newid ym myd natur wrth i ni anelu at yr hydref.

Gobeithio y bydd fy ngwallt corona, sydd wedi bod yn tyfu ers saith mis, hefyd yn cael ei ffustio i doriad gwallt Rhif 5 erbyn diwedd y mis.

Kerry

Ceidwad Cefn Gwlad